



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1989 (Cy. 299)

2015 No. 1989 (W. 299)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

SOCIAL CARE, WALES

**Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth
(Cymru) 2015**

**The Partnership Arrangements
(Wales) Regulations 2015**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae adrannau 166 i 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Sections 166 to 169 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 make provision for partnership arrangements between local authorities and Local Health Boards.

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion i bob Bwrdd Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol o fewn ardal pob Bwrdd Iechyd Lleol gymryd rhan mewn trefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig; mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth, ymhlith pethau eraill, ar gyfer gweithredu a rheoli'r trefniadau partneriaeth, sefydlu byrddau partneriaeth rhanbarthol a sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun.

These Regulations set out the requirements for each Local Health Board and the local authorities within the area of each Local Health Board to take part in partnership arrangements for the carrying out of specified health and social services functions; the Regulations also make provision, amongst other things, for the operation and management of the partnership arrangements, the establishment of regional partnership boards and the establishment and maintenance of pooled funds.

Mae rheoliadau 2 i 8 yn disgrifio'r Byrddau Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol sydd i gymryd rhan yn y trefniadau partneriaeth. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn cael eu sefydlu ac yn ei gwneud yn ofynnol bod y trefniadau partneriaeth yn cael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol penodedig.

Regulations 2 to 8 describe the Local Health Boards and the local authorities which are to take part in partnership arrangements. They also require the establishment of seven regional partnership boards and require the partnership arrangements to be carried out under the direction of a specified regional partnership board.

Mae rheoliad 9 ac Atodlen 1 yn disgrifio swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol sydd i gael eu cyflawni gan y trefniadau partneriaeth.

Regulation 9 and Schedule 1 describe the functions of Local Health Boards and local authorities which are to be carried out by the partnership arrangements.

Mae rheoliadau 10, 11 a 12 yn darparu ar gyfer amcanion y byrddau partneriaeth rhanbarthol, ynghyd â'r gofynion o ran aelodaeth ac adrodd.

Regulations 10, 11 and 12 provide for the objectives of the regional partnership boards, together with membership and reporting requirements.

Mae rheoliad 13 yn darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng cyrff partneriaeth, timau integredig cymorth i deuluoedd a byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Regulation 13 provides for the sharing of information between partnership bodies, integrated family support teams and regional partnership boards.

Mae rheoliad 14 yn galluogi pob corff partneriaeth i ddirprwyo swyddogaethau i gorff partneriaeth arall at ddibenion y trefniadau partneriaeth.

Mae rheoliadau 15 i 18 yn cynnwys darpariaeth benodol mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni swyddogaethau cymorth i deuluoedd (fel a bennir yn Atodlen 4) ac mewn perthynas â sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd. Bwriad y trefniadau hyn yw darparu parhad â'r trefniadau presennol o dan Ran 3 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae rheoliad 19 yn ei gwneud yn ofynnol bod cronfeydd cyfun yn cael eu sefydlu a'u cynnal mewn perthynas â swyddogaethau penodol cyrff partneriaeth.

Regulation 14 enables each partnership body to delegate functions to another partnership body for the purposes of the partnership arrangements.

Regulations 15 to 18 contain specific provision in relation to partnership arrangements for carrying out family support functions (as specified in Schedule 4) and the establishment of integrated family support teams. These arrangements are intended to provide continuity with current arrangements under Part 3 of the Children and Families (Wales) Measure 2010.

Regulation 19 requires pooled funds to be established and maintained in relation to specific functions of partnership bodies.

2015 Rhif 1989 (Cy. 299)

2015 No. 1989 (W. 299)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

SOCIAL CARE, WALES

**Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth
(Cymru) 2015**

**The Partnership Arrangements
(Wales) Regulations 2015**

Gwnaed 2 Rhagfyr 2015

Made 2 December 2015

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

*Coming into force in accordance with
regulation 1(2)*

CYNNWYS

CONTENTS

1. Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1. Title, commencement, application and interpretation

**BYRDDAU PARTNERIAETH
RHANBARTHOL**

REGIONAL PARTNERSHIP BOARDS

2. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gwent
3. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gogledd Cymru
4. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
5. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin
6. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Cwm Taf
7. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gorllewin Cymru
8. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Powys
9. Swyddogaethau penodedig

2. Partnership arrangements under the direction of Gwent regional partnership board
3. Partnership arrangements under the direction of North Wales regional partnership board
4. Partnership arrangements under the direction of Cardiff and Vale regional partnership board
5. Partnership arrangements under the direction of Western Bay regional partnership board
6. Partnership arrangements under the direction of Cwm Taf regional partnership board
7. Partnership arrangements under the direction of the West Wales regional partnership board
8. Partnership arrangements under the direction of Powys regional partnership board
9. Specified functions

10. Amcanion y byrddau partneriaeth rhanbarthol
11. Aelodaeth o fyrddau partneriaeth rhanbarthol
12. Adroddiadau
13. Rhannu gwybodaeth
14. Dirprwyo swyddogaethau

TIMAU INTEGREDIG CYMORTH I DEULUOEDD

15. Swyddogaethau cymorth i deuluoedd
16. Sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd
17. Neilltuo ac arfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd
18. Trefniadau ar gyfer atgyfeirio achosion at y timau integredig cymorth i deuluoedd

CRONFEYDD CYFUN

19. Sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun

Atodlen 1

Y swyddogaethau sydd i'w cyflawni gan drefniadau partneriaeth

Atodlen 2

Swyddogaethau cymorth i deuluoedd

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 166(1)(b), (2) i (5), 167(3) a 168(1) a (2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddo.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015.

(2) (a) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016 ac eithrio is-baragraff (a) o reoliad 19(1);

(b) daw is-baragraff (a) o reoliad 19(1) i rym ar 6 Ebrill 2018.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

10. Objectives of regional partnership boards
11. Membership of regional partnership boards
12. Reports
13. Information sharing
14. Delegation of functions

INTEGRATED FAMILY SUPPORT TEAMS

15. Family support functions
16. Establishment of integrated family support teams
17. Assignment and exercise of family support functions
18. Arrangements for referral of cases to the integrated family support teams

POOLED FUNDS

19. Establishment and maintenance of pooled funds

Schedule 1

Functions to be carried out by partnership arrangements

Schedule 2

Family support functions

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 166(1)(b), (2) to (5), 167(3) and 168(1) and (2) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(1).

A draft of these Regulations was laid before the National Assembly for Wales under section 196(6) of that Act and has been approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

Title, commencement, application and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015.

(2) (a) These Regulations come into force on 6 April 2016 except sub-paragraph (a) of regulation 19(1);

(b) sub-paragraph (a) of regulation 19(1) comes into force on 6 April 2018.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

(1) 2014 dccc 4.

(1) 2014 anaw 4.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “byrddau partneriaeth rhanbarthol” (“*regional partnership boards*”) yw’r byrddau y mae’n ofynnol iddynt gael eu sefydlu gan gyrff partneriaeth yn unol â rheoliadau 2 i 8;

“cyrff partneriaeth” (“*partnership bodies*”) yw’r cyrff hynny y mae’n ofynnol iddynt ymrwymo i gytundebau partneriaeth gan reoliadau 2 i 8;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr “swyddogaethau cymorth i deuluoedd” (“*family support functions*”) yw’r swyddogaethau a bennir yn rheoliad 15;

ystyr “swyddogaethau penodedig” (“*specified functions*”) yw’r swyddogaethau a bennir yn rheoliad 9;

ystyr “trefniadau partneriaeth” (“*partnership arrangements*”) yw’r trefniadau partneriaeth y mae’n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan gyrff partneriaeth yn unol â rheoliadau 2 i 8.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gwent

2.—(1) Rhaid i drefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni’r swyddogaethau penodedig gael eu gwneud gan y cyrff a ganlyn—

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

(2) Rhaid i’r byrddau hyn, gyda’i gilydd, sefydlu bwrdd partneriaeth mewn cysylltiad â’r trefniadau partneriaeth y mae’n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn, a’i enw fydd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gwent.

(3) Rhaid i’r trefniadau partneriaeth y mae’n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn gael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gwent.

Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gogledd Cymru

3.—(1) Rhaid i drefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni’r swyddogaethau penodedig gael eu gwneud gan y cyrff a ganlyn—

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(4) In these Regulations—

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;

“family support functions” (“*swyddogaethau cymorth i deuluoedd*”) means the functions specified in regulation 15;

“partnership arrangements” (“*trefniadau partneriaeth*”) means the partnership arrangements which are required to be made by partnership bodies in accordance with regulations 2 to 8;

“partnership bodies” (“*cyrff partneriaeth*”) are those bodies which are required by regulations 2 to 8 to enter into partnership arrangements;

“regional partnership boards” (“*byrddau partneriaeth rhanbarthol*”) means the boards required to be established by partnership bodies in accordance with regulations 2 to 8;

“specified functions” (“*swyddogaethau penodedig*”) means the functions specified in regulation 9.

Regional Partnership Boards

Partnership arrangements under the direction of Gwent regional partnership board

2.—(1) Partnership arrangements for carrying out the specified functions must be made by the following bodies—

Aneurin Bevan University Health Board

Monmouthshire County Council

Newport City Council

Torfaen County Borough Council

Blaenau Gwent County Borough Council

Caerphilly County Borough Council.

(2) These bodies must together establish a partnership board in respect of the partnership arrangements required to be made by this regulation, to be known as Gwent regional partnership board.

(3) The partnership arrangements required to be made by this regulation must be carried out under the direction of Gwent regional partnership board.

Partnership arrangements under the direction of North Wales regional partnership board

3.—(1) Partnership arrangements for carrying out the specified functions must be made by the following bodies—

Betsi Cadwaladr University Health Board

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Sir Gwynedd

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

(2) Rhaid i'r byrddau hyn, gyda'i gilydd, sefydlu bwrdd partneriaeth mewn cysylltiad â'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn, a'i enw fydd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gogledd Cymru.

(3) Rhaid i'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn gael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gogledd Cymru.

Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

4.—(1) Rhaid i drefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau penodedig gael eu gwneud gan y cyrff a ganlyn—

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cyngor Dinas a Sir Caerdydd

Cyngor Bro Morgannwg.

(2) Rhaid i'r byrddau hyn, gyda'i gilydd, sefydlu bwrdd partneriaeth mewn cysylltiad â'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn, a'i enw fydd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.

(3) Rhaid i'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn gael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.

Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin

5.—(1) Rhaid i drefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau penodedig gael eu gwneud gan y cyrff a ganlyn—

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

(2) Rhaid i'r byrddau hyn, gyda'i gilydd, sefydlu bwrdd partneriaeth mewn cysylltiad â'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn, a'i enw fydd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin.

Flintshire County Council

Wrexham County Borough Council

Isle of Anglesey County Council

Gwynedd County Council

Denbighshire County Council

Conwy County Borough Council.

(2) These bodies must together establish a partnership board in respect of the partnership arrangements required to be made by this regulation, to be known as North Wales regional partnership board.

(3) The partnership arrangements required to be made by this regulation must be carried out under the direction of North Wales regional partnership board.

Partnership arrangements under the direction of Cardiff and Vale regional partnership board

4.—(1) Partnership arrangements for carrying out the specified functions must be made by the following bodies—

Cardiff and Vale University Health Board

Cardiff City and County Council

Vale of Glamorgan Council.

(2) These bodies must together establish a partnership board in respect of the partnership arrangements required to be made by this regulation, to be known as Cardiff and Vale regional partnership board.

(3) The partnership arrangements required to be made by this regulation must be carried out under the direction of Cardiff and Vale regional partnership board.

Partnership arrangements under the direction of Western Bay regional partnership board

5.—(1) Partnership arrangements for carrying out the specified functions must be made by the following bodies—

Abertawe Bro Morgannwg University Health Board

Swansea City and County Council

Bridgend County Borough Council

Neath Port Talbot County Borough Council.

(2) These bodies must together establish a partnership board in respect of the partnership arrangements required to be made by this regulation, to be known as Western Bay regional partnership board.

(3) Rhaid i'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn gael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorrlewin.

Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Cwm Taf

6.—(1) Rhaid i drefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau penodedig gael eu gwneud gan y cyrff a ganlyn—

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

(2) Rhaid i'r byrddau hyn, gyda'i gilydd, sefydlu bwrdd partneriaeth mewn cysylltiad â'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn, a'i enw fydd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Cwm Taf.

(3) Rhaid i'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn gael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Cwm Taf.

Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gorrlewin Cymru

7.—(1) Rhaid i drefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau penodedig gael eu gwneud gan y cyrff a ganlyn—

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Ceredigion.

(2) Rhaid i'r cyrff hyn, gyda'i gilydd, sefydlu bwrdd partneriaeth mewn cysylltiad â'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn, a'i enw fydd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gorrlewin Cymru.

(3) Rhaid i'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn gael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gorrlewin Cymru.

Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Powys

8.—(1) Rhaid i drefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau penodedig gael eu gwneud gan y cyrff a ganlyn—

(3) The partnership arrangements required to be made by this regulation must be carried out under the direction of Western Bay regional partnership board.

Partnership arrangements under the direction of Cwm Taf regional partnership board

6.—(1) Partnership arrangements for carrying out specified functions must be made by the following bodies—

Cwm Taf University Health Board

Rhondda Cynon Taf County Borough Council

Merthyr Tydfil County Borough Council.

(2) These bodies must together establish a partnership board in respect of the partnership arrangements required to be made by this regulation, to be known as Cwm Taf regional partnership board.

(3) The partnership arrangements required to be made by this regulation must be carried out under the direction of Cwm Taf regional partnership board.

Partnership arrangements under the direction of the West Wales regional partnership board

7.—(1) Partnership arrangements for carrying out the specified functions must be made by the following bodies—

Hywel Dda University Health Board

Pembrokeshire County Council

Carmarthenshire County Council

Ceredigion County Council..

(2) These bodies must together establish a partnership board in respect of the partnership arrangements required to be made by this regulation, to be known as West Wales regional partnership board.

(3) The partnership arrangements required to be made by this regulation must be carried out under the direction of West Wales regional partnership board.

Partnership arrangements under the direction of Powys regional partnership board

8.—(1) Partnership arrangements for carrying out the specified functions must be made by the following bodies—

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Cyngor Sir Powys.

(2) Rhaid i'r cyrff hyn, gyda'i gilydd, sefydlu bwrdd partneriaeth mewn cysylltiad â'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn, a'i enw fydd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Powys.

(3) Rhaid i'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn gael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Powys.

Swyddogaethau penodedig

9. Y swyddogaethau sydd i'w cyflawni yn unol â'r trefniadau partneriaeth yw'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Atodlen 1.

Amcanion y byrddau partneriaeth rhanbarthol

10. Amcanion bwrdd partneriaeth rhanbarthol yw—

- (a) sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i—
 - (i) ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a gynhaliwyd yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf, a
 - (ii) gweithredu'r cynlluniau ar gyfer pob un o'r ardaloedd awdurdod lleol a gwmpesir gan y bwrdd y mae'n ofynnol i bob un o'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol eu llunio a'u cyhoeddi o dan adran 14A o'r Ddeddf(1);
- (b) sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth, yn unol â'u pwerau o dan adran 167 o'r Ddeddf;
- (c) hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun lle y bo'n briodol.

Aelodaeth o fyrddau partneriaeth rhanbarthol

11.—(1) Rhaid i aelodaeth bwrdd partneriaeth rhanbarthol gynnwys y canlynol—

- (a) o leiaf un aelod etholedig o awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
- (b) o leiaf un aelod o Fwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

Powys Teaching Health Board

Powys County Council.

(2) These bodies must together establish a partnership board in respect of the partnership arrangements required to be made by this regulation, to be known as Powys regional partnership board.

(3) The partnership arrangements required to be made by this regulation must be carried out under the direction of Powys regional partnership board.

Specified functions

9. The functions to be carried out in accordance with the partnership arrangements are the functions described in Schedule 1.

Objectives of regional partnership boards

10. The objectives of a regional partnership board are—

- (a) to ensure that the partnership bodies work effectively together to—
 - (i) respond to the population assessment carried out in accordance with section 14 of the Act, and
 - (ii) implement the plans for each of the local authority areas covered by the board which local authorities and local health boards are each required to prepare and publish under section 14A of the Act(1);
- (b) to ensure that the partnership bodies provide sufficient resources for the partnership arrangements, in accordance with their powers under section 167 of the Act;
- (c) to promote the establishment of pooled funds where appropriate.

Membership of regional partnership boards

11.—(1) Membership of a regional partnership board must include the following—

- (a) at least one elected member of a local authority which established the regional partnership board;
- (b) at least one member of a Local Health Board which established the regional partnership board;

(1) Mewniodwyd adran 14A i'r Ddeddf gan adran 46 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) a pharagraff 34 o Atodlen 4 iddi.

(1) Section 14A was inserted into the Act by section 46 of, and paragraph 34 of Schedule 4 to the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (anaw 2).

- (c) y person a benodwyd yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 144 o'r Ddeddf mewn cysylltiad â phob awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, neu ei gynrychiolydd enwebedig;
- (d) cynrychiolydd i'r Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
- (e) dau berson sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau'r trydydd sector yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
- (f) o leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
- (g) un person i gynrychioli pobl y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
- (h) un person i gynrychioli gofaluwr(1) yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

(2) Caiff bwrdd partneriaeth rhanbarthol gyfethol unrhyw bersonau eraill y mae'n meddwl eu bod yn briodol i fod yn aelodau o'r bwrdd.

(3) Caiff y cyrff partneriaeth dalu taliadau cydnabyddiaeth ariannol a lwfansau i aelodau byrddau partneriaeth rhanbarthol.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn—

ystyr “darparwr gofal” (“*care provider*”) yw person sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(2) mewn cysylltiad â sefydliad neu asiantaeth (o fewn ystyr y Ddeddf honno);

mae i “sefydliad trydydd sector” (“*third sector organisation*”) yr un ystyr ag yn adran 16(2) o'r Ddeddf.

Adroddiadau

12.—(1) Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol lunio adroddiad ar y graddau y mae amcanion y bwrdd yn rheoliad 10 wedi eu cyflawni a rhaid iddynt gyflwyno'r adroddiad hwn i Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid llunio a chyflwyno'r adroddiad cyntaf erbyn 1 Ebrill 2017.

(3) Rhaid llunio a chyflwyno'r adroddiadau yn flynyddol wedi hynny.

- (c) the person appointed as director of social services under section 144 of the Act in respect of each local authority which established the regional partnership board, or his or her nominated representative;
- (d) a representative of the Local Health Board which established the regional partnership board;
- (e) two persons who represent the interests of third sector organisations in the area covered by the regional partnership board;
- (f) at least one person who represents the interests of care providers in the area covered by the regional partnership board;
- (g) one person to represent people with needs for care and support in the area covered by the regional partnership board;
- (h) one person to represent carers(1) in the area covered by the regional partnership board.

(2) A regional partnership board may co-opt such other persons to be members of the board as it thinks appropriate.

(3) The partnership bodies may pay remunerations and allowances to members of regional partnership boards.

(4) For the purpose of this regulation—

“care provider” (“*darparwr gofal*”) means a person registered under Part 2 of the Care Standards Act 2000(2) in respect of an establishment or agency (within the meaning of that Act);

“third sector organisation” (“*sefydliad trydydd sector*”) has the same meaning as in section 16(2) of the Act.

Reports

12.—(1) Regional partnership boards must prepare a report on the extent to which the board's objectives in regulation 10 have been achieved and submit this report to the Welsh Ministers.

(2) The first report must be prepared and submitted by 1 April 2017.

(3) Subsequent reports must be prepared and submitted annually.

(1) Diffinnir “gofalwr” yn adran 3(4) o'r Ddeddf.

(2) 2000 p. 14.

(1) “Carer” is defined in section 3(4) of the Act.

(2) 2000 c. 14.

Rhannu gwybodaeth

13.—(1) At ddibenion cyflawni'r swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni gan y trefniadau partneriaeth, rhaid i gorff partneriaeth rannu gwybodaeth—

- (a) ag unrhyw un neu ragor o'r cyrff partneriaeth eraill;
- (b) â'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

(2) At ddiben cyflawni'r swyddogaethau cymorth i deuluoedd penodedig, rhaid i dîm integredig cymorth i deuluoedd rannu gwybodaeth—

- (a) ag unrhyw un neu ragor o'r cyrff partneriaeth;
- (b) â'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

(3) At ddibenion cyflawni ei amcanion, rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol rannu gwybodaeth ag unrhyw un neu ragor o'r cyrff partneriaeth.

(4) Nid yw'r ddyletswydd ym mharagraffau (1), (2) neu (3) yn gymwys os yw'n anghydnaws ag unrhyw un neu ragor o ddyletswyddau eraill y corff, gan gynnwys ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998(1) a Deddf Hawliau Dynol 1998(2).

Dirprwyo swyddogaethau

14.—(1) Caiff awdurdod lleol gyflawni unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau penodedig ar ran unrhyw un neu ragor o'r cyrff partneriaeth eraill sy'n cymryd rhan yn yr un trefniadau partneriaeth.

(2) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol gyflawni unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau awdurdod lleol penodedig a ddisgrifir yn Nhabl 1 o Atodlen 1 ar ran unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn yr un trefniadau partneriaeth.

Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd

Swyddogaethau cymorth i deuluoedd

15. Y swyddogaethau cymorth i deuluoedd yw'r swyddogaethau sydd wedi eu pennu yn Atodlen 2.

Sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd

16.—(1) Rhaid i'r cyrff partneriaeth ar gyfer pob un o'r trefniadau partneriaeth sefydlu tîm at ddiben arfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd.

(2) Enw tîm a sefydlir o dan y rheoliad hwn fydd tîm integredig cymorth i deuluoedd.

Information sharing

13.—(1) For the purposes of carrying out the functions being carried out by the partnership arrangements, a partnership body must share information with—

- (a) any of the other partnership bodies;
- (b) the regional partnership board.

(2) For the purpose of carrying out the specified family support functions, an integrated family support team must share information with—

- (a) any of the partnership bodies;
- (b) the regional partnership board.

(3) For the purposes of achieving its objectives, a regional partnership board must share information with any of the partnership bodies.

(4) The duty in paragraphs (1), (2) or (3) does not apply if this is incompatible with any of the body's other duties, including its duties under the Data Protection Act 1998(1) and the Human Rights Act 1998(2).

Delegation of functions

14.—(1) A local authority may carry out any of the specified functions on behalf of any of the other partnership bodies taking part in the same partnership arrangements.

(2) A Local Health Board may carry out any of the specified local authority functions described in Table 1 of Schedule 1 on behalf of any of the local authorities taking part in the same partnership arrangements.

Integrated Family Support Teams

Family support functions

15. Family support functions are the functions specified in Schedule 2.

Establishment of integrated family support teams

16.—(1) The partnership bodies for each of the partnership arrangements must establish a team for the purpose of the exercise of family support functions.

(2) A team established under this regulation is to be known as an integrated family support team.

(1) 1998 p. 29.
(2) 1998 p. 42.

(1) 1998 c. 29.
(2) 1998 c. 42.

(3) Caiff y cyrff partneriaeth neilltuo swyddogaethau cymorth i deuluoedd i'r tîm integredig cymorth i deuluoedd.

(4) Rhaid i dîm integredig cymorth i deuluoedd gynnwys staff sydd â'r sgiliau a'r profiad addas gan roi sylw—

- (a) i'r categorïau o achosion y gellir eu hatgyfeirio ato, a
- (b) i'r angen am gymorth gweinyddol ar staff proffesiynol.

Neilltuo ac arfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd

17.—(1) Rhaid i dîm integredig cymorth i deuluoedd gyflawni'r swyddogaethau cymorth i deuluoedd sydd wedi eu neilltuo iddo.

(2) Mae swyddogaethau tîm integredig cymorth i deuluoedd i gael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

(3) Mae swyddogaethau cymorth i deuluoedd tîm integredig cymorth i deuluoedd i gael eu cyflawni mewn cysylltiad â theulu a atgyfeirir ato gan yr awdurdod lleol.

(4) Mae swyddogaeth a arferir o dan y Rheoliadau hyn yn arferadwy ar yr un pryd gan y tîm integredig cymorth i deuluoedd a chan y corff y rhoddir y swyddogaeth iddo.

Trefniadau ar gyfer atgyfeirio achosion at y timau integredig cymorth i deuluoedd

18.—(1) Caiff corff partneriaeth atgyfeirio teulu at dîm integredig cymorth i deuluoedd os yw yn rhesymol yn credu neu'n amau—

- (a) bod rhiant plentyn yn y teulu hwnnw (neu ddarpar riant)—
 - (i) yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau,
 - (ii) yn ddioddefwr trais domestig neu gamdrin domestig,
 - (iii) â hanes o ymddwyn yn dreisgar neu'n gamdriniol, neu
 - (iv) ag anhwylder meddwl; a
- (b) o ganlyniad i un neu ragor o'r amgylchiadau hyn, bod y plentyn, neu y bydd y plentyn, yn blentyn y mae angen gofal a chymorth arno a naill ai—
 - (i) na fydd y plentyn yn gallu aros gyda'r teulu os na ddarperir gwasanaethau cymorth i deuluoedd,
 - (ii) pan fo'r plentyn yn derbyn gofal, na fydd y plentyn yn gallu dychwelyd i fyw gyda'r teulu os na ddarperir gwasanaethau cymorth i deuluoedd, neu

(3) The partnership bodies may assign family support functions to the integrated family support team.

(4) An integrated family support team must contain staff with suitable skills and experience having regard to—

- (a) the categories of cases which can be referred to it, and
- (b) the need of professional staff for administrative support.

Assignment and exercise of family support functions

17.—(1) An integrated family support team must carry out the family support functions that are assigned to it.

(2) The functions of an integrated family support team are to be carried out under the direction of the regional partnership board.

(3) The family support functions of an integrated family support team are to be carried out in respect of a family referred to it by the local authority.

(4) A function exercised under these Regulations is exercisable concurrently by the integrated family support team and the body upon whom the function is conferred.

Arrangements for referral of cases to the integrated family support teams

18.—(1) A partnership body may refer a family to an integrated family support team if it reasonably believes or suspects that—

- (a) a parent of a child in that family (or a prospective parent)—
 - (i) is dependent on alcohol or drugs,
 - (ii) is a victim of domestic violence or abuse,
 - (iii) has a history of violent or abusive behaviour, or
 - (iv) has a mental disorder; and
- (b) as a consequence of one or more of these circumstances, the child is or will be in need of care and support and either—
 - (i) the child will be unable to remain with the family if family support services are not provided,
 - (ii) where the child is looked after, the child will be unable to return to live with the family if family support services are not provided, or

(iii) bod y plentyn, neu y bydd y plentyn, yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall os na ddarperir gwasanaethau cymorth i deuluoedd.

(2) Rhaid i atgyfeiriad at dîm integredig cymorth i deuluoedd gael ei wneud yn unol â gweithdrefn atgyfeirio y cytunir arni gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, mae “teulu” (“*family*”) yn cynnwys pob un o’r canlynol—

- (a) plentyn, rhieni’r plentyn ac, os yw’r awdurdod yn meddwl ei bod yn briodol, unrhyw unigolyn arall sy’n gysylltiedig â’r plentyn neu â’r rhieni;
- (b) unigolion sydd ar fin dod yn rhieni i blentyn ac, os yw’r awdurdod lleol yn meddwl ei bod yn briodol, unrhyw unigolyn arall sy’n gysylltiedig â’r unigolion sydd ar fin dod yn rhieni i’r plentyn hwnnw.

(4) Caiff plentyn y mae arno anghenion am ofal a chymorth gynnwys plentyn sy’n derbyn gofal.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “anhwylder meddwl” (“*mental disorder*”) yw unrhyw anhwylder neu anabled meddwl;

mae “cam-drin” (“*abuse*”) yn cynnwys gweithgarwch rhywiol heb gydsyniad ac ymddygiad afresymol sy’n debygol o achosi niwed seicolegol difrifol; mae cam-drin yn “cam-drin domestig” (“*domestic abuse*”) os daw oddi wrth unigolyn sy’n gysylltiedig â’r dioddefwr; ac mae “camdriniol” (“*abusive*”) i’w ddehongli yn unol â hynny;

mae i “plentyn sy’n derbyn gofal” (“*looked after child*”) yr un ystyr ag yn adran 74 o’r Ddeddf;

ystyr “plentyn y mae arno anghenion am ofal a chymorth” (“*child with needs for care and support*”) yw plentyn y mae’r awdurdod lleol wedi penderfynu y mae arno anghenion am ofal a chymorth, yn dilyn asesiad o dan adran 21 o’r Ddeddf;

mae “rhiant” (“*parent*”) mewn perthynas â phlentyn, yn cynnwys unrhyw unigolyn—

- (a) nad yw’n rhiant i’r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, neu
- (b) sydd â gofal am y plentyn;

ystyr “trais” (“*violence*”) yw trais neu fygythiadau o drais sy’n debygol o gael eu cyflawni ac mae “treisgar” (“*violent*”) i’w ddehongli yn unol â hynny; mae trais yn “trais domestig” (“*domestic violence*”) os daw oddi wrth unigolyn sy’n gysylltiedig â’r dioddefwr.

(iii) the child is or will be at risk of abuse, neglect or other harm if family support services are not provided.

(2) A referral to an integrated family support team must be made in accordance with a referral procedure agreed by the regional partnership board.

(3) For the purposes of this regulation, “family” (“*teulu*”) includes each of the following—

- (a) a child, the parents of the child and, if the authority thinks it is appropriate, any other individual connected with the child or the parents;
- (b) individuals who are about to become parents of a child and, if the local authority thinks it appropriate, any other individual connected with the individuals who are about to become the parents of that child.

(4) A child with needs for care and support may include a looked after child.

(5) In this regulation—

“abuse” (“*cam-drin*”) includes both sexual activity without consent and unreasonable behaviour liable to cause serious psychological harm; abuse is “domestic abuse” (“*cam-drin domestig*”) if it is from an individual who is associated with the victim; and “abusive” (“*camdriniol*”) is to be interpreted accordingly;

“child with needs for care and support” (“*plentyn y mae arno anghenion am ofal a chymorth*”) means a child who the local authority has determined has needs for care and support, following an assessment under section 21 of the Act;

“looked after child” (“*plentyn sy’n derbyn gofal*”) has the same meaning as in section 74 of the Act;

“mental disorder” (“*anhwylder meddwl*”) means any disorder or disability of the mind;

“parent” (“*rhiant*”), in relation to a child, includes any individual—

- (a) who is not a parent of the child but who has parental responsibility for the child, or
- (b) who has care of the child;

“violence” (“*trais*”) means violence or threats of violence which are likely to be carried out and “violent” (“*treisgar*”) is to be interpreted accordingly; violence is “domestic violence” (“*trais domestig*”) if it is from an individual who is associated with the victim.

(6) At ddibenion y diffiniad o “rhiant” (“*parent*”) ym mharagraff (4)—

- (a) mae i “cyfrifoldeb rhiant” yr un ystyr ag a roddir i “parental responsibility” yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989(1);
- (b) wrth benderfynu a oes gan unigolyn ofal am blentyn, mae unrhyw absenoldeb o’r plentyn mewn ysbyty, cartref plant neu leoliad maeth ac unrhyw absenoldeb dros dro arall i’w ddiystyru.

Cronfeydd Cyfun

Sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun

19.—(1) Mae’n ofynnol i gyrff partneriaeth pob un o’r trefniadau partneriaeth sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun mewn perthynas ag—

- (a) arfer eu swyddogaethau llety cartref gofal;
- (b) arfer eu swyddogaethau cymorth i deuluoedd;
- (c) unrhyw un neu ragor o’u swyddogaethau penodedig y maent yn penderfynu y byddant yn eu harfer ar y cyd o ganlyniad i asesiad a gynhelir o dan adran 14 o’r Ddeddf neu unrhyw gynllun a lunnir o dan adran 14A o’r Ddeddf(2).

(2) Yn y rheoliad hwn—

mae i “cartref gofal” yr un ystyr ag a roddir i “care home” yn Neddf Safonau Gofal 2000;

ystyr “swyddogaethau llety cartref gofal” (“*care home accommodation functions*”) yw—

- (a) swyddogaethau awdurdod lleol o dan adrannau 35 ac 36 o’r Ddeddf, pan benderfynwyd diwallu anghenion yr oedolyn drwy ddarparu neu drefnu i ddarparu llety mewn cartref gofal;
- (b) swyddogaethau Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 mewn perthynas ag oedolyn, mewn achosion—
 - (i) pan fo gan yr oedolyn angen sylfaenol am ofal iechyd a phenderfynwyd diwallu anghenion yr oedolyn drwy drefnu i ddarparu llety mewn cartref gofal, neu
 - (ii) pan na fo gan yr oedolyn angen sylfaenol am ofal iechyd ond na ellir diwallu anghenion yr oedolyn ond drwy drefnu gan yr awdurdod lleol i ddarparu llety ynghyd â gofal nyrsio.

(6) For the purposes of the definition of “parent” (“*rhiant*”) in paragraph (4)—

- (a) “parental responsibility” (“*cyfrifoldeb rhiant*”) has the same meaning as in section 3 of the Children Act 1989(1);
- (b) in determining whether an individual has care of a child, any absence of the child at a hospital, children’s home or foster placement and any other temporary absence is to be disregarded.

Pooled Funds

Establishment and maintenance of pooled funds

19.—(1) Partnership bodies for each of the partnership arrangements are required to establish and maintain pooled funds in relation to—

- (a) the exercise of their care home accommodation functions;
- (b) the exercise of their family support functions;
- (c) such of their specified functions as they decide they will exercise jointly in consequence of an assessment carried out under section 14 of the Act or any plan prepared under section 14A of the Act(2).

(2) In this regulation—

“care home” (“*cartref gofal*”) has the same meaning as in the Care Standards Act 2000;

“care home accommodation functions” (“*swyddogaethau llety cartref gofal*”) means—

- (a) the functions of a local authority under sections 35 and 36 of the Act, where it has been decided to meet the adult’s needs by providing or arranging to provide accommodation in a care home;
- (b) the functions of a Local Health Board under section 3 of the National Health Service (Wales) Act 2006 in relation to an adult, in cases where—
 - (i) the adult has a primary need for health care and it has been decided to meet the needs of the adult by arranging the provision of accommodation in a care home, or
 - (ii) the adult does not have a primary need for health care but the adult’s needs can only be met by the local authority arranging for the provision of accommodation together with nursing care.

(1) 1989 p. 41.

(2) *Gweler* y troednodyn i reoliad 10(a)(ii).

(1) 1989 c. 41.

(2) *See* footnote to regulation 10(a)(ii).

Mark Drakeford

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
2 Rhagfyr 2015

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
2 December 2015

Y swyddogaethau sydd i'w cyflawni gan
drefniadau partneriaeth

Functions to be carried out by
partnership arrangements

Tabl 1**Swyddogaethau awdurdodau lleol**

<i>Y swyddogaeth</i>
<p>1. Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi eu cynnwys yn Atodlen 2 i'r Ddeddf, ac eithrio—</p> <p>(a) y swyddogaethau yn Rhan 5 o'r Ddeddf (codi ffioedd),</p> <p>(b) adran 144 o'r Ddeddf (cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol),</p> <p>(c) adrannau 1 a 2 o Ddeddf Mabwysiadu 1976(1),</p> <p>(d) adrannau 114 a 115 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(2),</p> <p>(e) Rhannau VII i X ac adran 86 o Ddeddf Plant 1989</p> <p>2. Swyddogaethau o dan adran 7 o Ddeddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986(3)</p> <p>3. Swyddogaethau darparu cyfleusterau hamdden, neu sicrhau'r ddarpariaeth o gyfleusterau hamdden, o dan adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976(4)</p> <p>4. Swyddogaethau awdurdodau tai lleol o dan Ran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(5); ac o dan Ran VI o Ddeddf Tai 1996(6) a Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(7)</p> <p>5. Swyddogaethau awdurdodau lleol o dan adran 126 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996</p> <p>6. Swyddogaethau casglu gwastraff neu waredu gwastraff o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(8)</p>

- (1) 1976 p. 36.
(2) 1983 p. 20.
(3) 1986 p. 33.
(4) 1976 p. 57.
(5) 1996 p. 53.
(6) 1996 p. 52.
(7) 2014 dccc 7.
(8) 1990 p. 43.

Table 1**Local authority functions**

<i>Function</i>
<p>1. Social services functions contained in Schedule 2 to the Act, except—</p> <p>(a) the functions in Part 5 of the Act (charging),</p> <p>(b) section 144 of the Act (directors of social services),</p> <p>(c) sections 1 and 2 of the Adoption Act 1976(1),</p> <p>(d) sections 114 and 115 of the Mental Health Act 1983(2),</p> <p>(e) Parts VII to X and section 86 of the Children Act 1989</p> <p>2. The functions under section 7 of the Disabled Persons (Services, Consultation and Representation) Act 1986(3)</p> <p>3. The functions of providing, or securing the provision of recreational facilities under section 19 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976(4)</p> <p>4. The functions of local housing authorities under Part I of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996(5); and under Part VI of the Housing Act 1996(6) and Part 2 of the Housing (Wales) Act 2014(7)</p> <p>5. The functions of local authorities under section 126 of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996</p> <p>6. The functions of waste collection or waste disposal under the Environmental Protection Act 1990(8)</p>

- (1) 1976 c. 36.
(2) 1983 c. 20.
(3) 1986 c. 33.
(4) 1976 c. 57.
(5) 1996 c. 53.
(6) 1996 c. 52.
(7) 2014 anaw 7.
(8) 1990 c. 43.

7. Swyddogaethau darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o dan adrannau 180 a 181 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1)

8. Swyddogaethau awdurdodau priffyrdd lleol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980(2) ac adran 39 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988(3)

9. Swyddogaethau o dan adran 63 (trafnidiaeth teithwyr) ac adran 93 (cynlluniau consesiynau teithio) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985(4)

7. The functions of providing environmental health services under sections 180 and 181 of the Local Government Act 1972(1)

8. The functions of local highway authorities under the Highways Act 1980(2) and section 39 of the Road Traffic Act 1988(3)

9. The functions under section 63 (passenger transport) and section 93 (travel concession schemes) of the Transport Act 1985(4)

Tabl 2

Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol

Y swyddogaeth

Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (*ôl-ofal*)
Adran 82 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(5) (*cydweithredu rhwng cyrff GIG ac awdurdodau lleol*)
Adran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (*dyletswydd i hyrwyddo gwasanaeth iechyd*)
Adrannau 2 a 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (*pŵerau i ddarparu gwasanaethau iechyd*), gan gynnwys gwasanaethau adsefydlu a gwasanaethau sydd â'r bwriad o osgoi derbyn pobl i'r ysbyty ond gan eithrio llawdriniaethau, radiotherapi, terfynu beichiogrwydd, endosgopi, defnyddio triniaethau laser Dosbarth 4 a thriniaethau mewnwithiol eraill a gwasanaethau ambiwlans brys
Adran 10(1), (2), (3), (4) a (5) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (*trefniadau gyda chyrff eraill*)
Adran 38(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (*dyletswydd i roi ar gael wasanaethau a ddarperir gan berson a gyflogir yn y gwasanaeth iechyd er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni swyddogaethau*)

Table 2

Local Health Board functions

Function

Section 117 of the Mental Health Act 1983 (*after care*)
Section 82 of the National Health Service Act 2006(5) (*cooperation between NHS bodies and local authorities*)
Section 1 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (*duty to promote health service*)
Sections 2 and 3 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (*powers to provide health services*), including rehabilitation services and services intended to avoid admission to hospital but excluding surgery, radiotherapy, termination of pregnancies, endoscopy, the use of Class 4 laser treatments and other invasive treatments and emergency ambulance services
Section 10(1), (2), (3), (4) and (5) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (*arrangements with other bodies*)
Section 38(6) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (*duty to make available services provided by a person employed in the health service to enable local authorities to discharge functions*)

(1) 1972 p. 70.
(2) 1980 p. 66.
(3) 1988 p. 52.
(4) 1985 p. 67.
(5) 2006 p. 43.

(1) 1972 c. 70.
(2) 1980 c. 66.
(3) 1988 c. 52.
(4) 1985 c. 67.
(5) 2006 c. 43.

Swyddogaethau cymorth i deuluoedd

Family support functions

Tabl 1

Table 1

Swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant

Local authority functions in relation to children

<i>Y swyddogaeth</i>	<i>Rhychwant</i>
Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf (<i>asesu a diwallu anghenion am ofal a chymorth</i>) Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (<i>ôl-ofal</i>)	I'r graddau y maent yn ymwneud â diwallu anghenion plant sydd wedi cael eu hasesu o dan adran 21 o'r Ddeddf fel rhai sydd ag anghenion am ofal a chymorth ac ar gyfer eu teuluoedd.

<i>Function</i>	<i>Extent</i>
Parts 3 and 4 of the Act (<i>assessing and meeting needs for care and support</i>) Section 117 of the Mental Health Act 1983 (<i>after-care</i>)	In so far as they relate to meeting the needs of children who have been assessed under section 21 of the Act as having needs for care and support and for their families.

Tabl 2

Table 2

Swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas ag oedolion

Local authority functions in relation to adults

<i>Y swyddogaeth</i>	<i>Rhychwant</i>
Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf (<i>asesu a diwallu anghenion am ofal a chymorth</i>) Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (<i>ôl-ofal</i>)	I'r graddau y maent yn ymwneud â diwallu anghenion personau sydd dros 18 oed ac sydd wedi cael eu hasesu o dan adran 19 o'r Ddeddf fel rhai sydd ag anghenion am ofal a chymorth oherwydd eu bod yn ddibynnol ar alcohol neu ar gyffuriau, neu oherwydd eu bod yn ddiodefswyr trais domestig neu gam-drin domestig, oherwydd bod ganddynt hanes o ymddwyn yn dreisgar neu'n gamdriniol neu oherwydd bod ganddynt anhwylder meddwl.

<i>Function</i>	<i>Extent</i>
Parts 3 and 4 of the Act (<i>assessing and meeting needs for care and support</i>) Section 117 of the Mental Health Act 1983 (<i>after-care</i>)	In so far as they relate to meeting the needs of persons over the age of 18 who have been assessed under section 19 of the Act as having needs for care and support because they are dependent on alcohol or drugs, or because they are victims of domestic violence or abuse, have a history of violent or abusive behaviour or because they have a mental disorder.

Tabl 3**Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â phlant**

<i>Y swyddogaeth</i>	<i>Rhychwant</i>
Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (<i>ôl-ofal</i>)	I'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddarpariaeth o wasanaethau neu gyfleusterau iechyd i blant, neu driniaeth i blant, sydd wedi cael eu hasesu o dan adran 21 o'r Ddeddf fel rhai sydd ag anghenion am ofal a chymorth, gan gynnwys asesu'r angen am wasanaethau neu gyfleusterau o'r fath.
Adran 82 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (<i>cydweithredu rhwng cyrff GIG ac awdurdodau lleol</i>)	
Adran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (<i>dyletswydd i hyrwyddo gwasanaeth iechyd</i>)	
Adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (<i>pwerau cyffredinol</i>)	
Adran 3(1)(c),(d), (e) ac (f) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (<i>darparu gwasanaethau penodol</i>)	
Adran 10(1), (2), (3), (4) a (5) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (<i>trefniadau gyda chyrff eraill</i>)	
Adran 38(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (<i>dyletswydd i roi ar gael wasanaethau a ddarperir gan berson a gyflogir yn y gwasanaeth iechyd er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni swyddogaethau</i>)	

Table 3**Local Health Board functions in relation to children**

<i>Function</i>	<i>Extent</i>
Section 117 of the Mental Health Act 1983 (<i>after-care</i>)	In so far as they relate to the provision of health services or facilities for, or treatment of children who have been assessed under section 21 of the Act as having needs for care and support, including the assessment of need for such services or facilities.
Section 82 of the National Health Service Act 2006 (<i>co-operation between NHS bodies and local authorities</i>)	
Section 1 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (<i>duty to promote health service</i>)	
Section 2 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (<i>general powers</i>)	
Section 3(1)(c),(d), (e) and (f) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (<i>provision of certain services</i>)	
Section 10(1), (2), (3), (4) and (5) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (<i>arrangements with other bodies</i>)	
Section 38(6) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (<i>duty to make available services provided by a person employed in the health service to enable local authorities to discharge functions</i>)	

Tabl 4

Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol mewn perthynas ag oedolion

<i>Y swyddogaeth</i>	<i>Rhychwant</i>
Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (<i>ôl-ofal</i>)	I'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddarpariaeth o wasanaethau neu gyfleusterau iechyd i bobl, neu driniaeth i bobl, sy'n ddibynnol ar alcohol neu ar gyffuriau, neu sy'n ddiodefwrwr trais domestig neu gam-drin domestig, sydd â hanes o ymddwyn yn dreisgar neu'n gamdriniol neu sydd ag anhwylder meddwl, i gynnwys asesu'r angen am wasanaethau neu driniaeth o'r fath.
Adran 82 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (<i>cydweithredu rhwng cyrff GIG ac awdurdodau lleol</i>)	
Adran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (<i>dyletswydd i hyrwyddo gwasanaeth iechyd</i>)	
Adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (<i>pŵerau cyffredinol</i>)	
Adran 3(1)(c),(d), (e) ac (f) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (<i>darparu gwasanaethau penodol</i>)	
Adran 10(1), (2), (3), (4) a (5) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (<i>trefniadau gyda chyrff eraill</i>)	
Adran 38(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (<i>dyletswydd i roi ar gael wasanaethau a ddarperir gan berson a gyflogir yn y gwasanaeth iechyd er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni swyddogaethau</i>)	

© Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Table 4

Local Health Board functions in relation to adults

<i>Function</i>	<i>Extent</i>
Section 117 of the Mental Health Act 1983 (<i>after-care</i>)	In so far as they relate to the provision of health services or facilities for, or treatment of persons who are dependent on alcohol or drugs, or who are victims of domestic violence or abuse, have a history of violent or abusive behaviour or who have a mental disorder, to include the assessment or need for such services or treatment.
Section 82 of the National Health Service Act 2006 (<i>co-operation between NHS bodies and local authorities</i>)	
Section 1 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (<i>duty to promote health service</i>)	
Section 2 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (<i>general powers</i>)	
Section 3(1)(c),(d), (e) and (f) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (<i>provision of certain services</i>)	
Section 10(1), (2), (3), (4) and (5) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (<i>arrangements with other bodies</i>)	
Section 38(6) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (<i>duty to</i>	

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1989 (Cy. 299)

2015 No. 1989 (W. 299)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

SOCIAL CARE, WALES

Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth
(Cymru) 2015

The Partnership Arrangements
(Wales) Regulations 2015

£6.00

W2503/12/15

ON

ISBN 978-0-348-11204-7



9 780348 112047